# Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau – Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4525A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddoggwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Amcanion a chwmpas ein gwaith 4

Canfyddiadau allweddol 5

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 9

# Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru'n wynebu heriau ariannol digynsail. Mae gwaddol pandemig COVID-19 o ran y galw am wasanaethau, y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal a chadw ystad sy'n heneiddio; a mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd mwyfwy cymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod £425 ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd y sefyllfa archwiliedig ar ddiwedd y flwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru'n ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai o gyrff y GIG wedi gallu mantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill – yn enwedig rhai Byrddau Iechyd – yn gryn her gyda llawer yn methu â chyflawni'r cyfanswm diffyg wedi'i reoli a ddisgwylid gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yn llawn cymaint o her, os nad yn fwy o her. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn i nodi a chyflawni cyfleoedd i wella costau yn ystod y flwyddyn, a bydd angen iddynt hefyd fabwysiadu dull tymor hwy o gyflawni cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau byrdymor i rai lle cyflawnir arbedion drwy drawsnewid modelau gwasanaethau a ffyrdd o weithio.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflawni rhaglen waith yn archwilio dulliau cyrff y GIG o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd i wneud arbedion cynaliadwy o ran costau. Er bod ein gwaith mwy manwl wedi'i dargedu at fyrddau iechyd, rydym hefyd wedi gwneud gwaith lefel uchel mewn Awdurdodau Iechyd Arbennig ac yn Ymddiriedolaethau'r GIG, a hwnnw'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol y cyrff hynny. Caiff canfyddiadau'r gwaith lefel uchel hwnnw yn Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) eu nodi yn yr adroddiad hwn.

5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod wedi'i argyhoeddi bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran sut y mae'n defnyddio ei adnoddau.

6 Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mehefin 2023. Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

7 At ei gilydd, nodwyd gennym fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau clir ar gyfer nodi a chyflawni ei gyfleoedd i wella costau a monitro ei sefyllfa ariannol gyffredinol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch cyllid cynyddu ar sail chwyddiant y bydd angen ei reoli yn y tymor canolig a'r tymor hir.**

8 Caiff y canfyddiadau sy'n ategu ein casgliad cyffredinol eu crynhoi isod dan y penawdau canlynol:

- Nodi cyfleoedd i wella costau
- Cyflawni cyfleoedd i wella costau
- Monitro a goruchwylio cyfleoedd i wella costau

## Nodi cyfleoedd i wella costau

9 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'i ysgogwyr costau sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Chynllun Ariannol a Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2024-27. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau costau cenedlaethol a lleol megis chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ynni, effaith yr Ymchwiliad cyhoeddus i COVID-19, gofynion systemau digidol, drifft cynyddrannol a chodiadau cyflog i swyddi a ariannwyd yn flaenorol gan Gronfa Buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth, a nifer o ofynion gweithlu gan gynnwys Tystysgrif Noddi er mwyn galluogi gwladolion tramor i weithio yn y DU.

10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr amgylchedd ariannol heriol y mae'r sefydliad, a'r GIG ehangach yng Nghymru, yn gweithredu ynddo, ac mae wedi datblygu ei chynllun refeniw ar gyfer 2024-25 yn unol ag egwyddorion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys dyrannu targed arbedion effeithlonrwydd o 2% ar draws holl gyllidebau gwariant sylfaenol y cyfarwyddiaethau ac adeiladu cynlluniau wrth gefn i ymdrin â chwyddiant yn absenoldeb cynyddu cyllid ar sail chwyddiant Llywodraeth Cymru[1]. Yn y blynyddoedd i ddod, mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhagdybio y bydd yn cael codiad ar gyfer chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau a phwysau costau ond, o ystyried nad yw hyn wedi'i gadarnhau, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu ei sefyllfa ariannol yn fanwl yn y tymor canolig i'r tymor hir.

## Cyflawni cyfleoedd i wella costau

11 Fel y dengys yn **Arddangosyn 1**, mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o gyflawni ei thargedau arbedion cyffredinol gyda chyfran uchel o'r arbedion a gyflawnwyd yn

[1] Yn ei chanllawiau i gyrff y GIG, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ond yn darparu codiadau dyraniad chwyddiant i Fyrddau Iechyd. Nid oes unrhyw godiad dyraniad chwyddiant wedi'i ddarparu i'r Awdurdodau Iechyd Arbennig nac Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer 2024-25.

rheolaidd o ran eu natur. Mae hyn ac eithrio 2022-23, pan oedd y rhan fwyaf o arbedion nad ydynt yn rheolaidd.

**Arddangosyn 1 – hanes arbedion yr Ymddiriedolaeth rhwng 2018 a 2024**

| Blwyddyn | Targed Arbedion Cyffredinol £(M) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol wedi'u cyflawni (£M) | Arbedion rheolaidd fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion achlysurol a gyflawnwyd (£M) | Arbedion rheolaidd a gyflawnwyd (£M) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 2.2 | 2.2 | 90% | 0.2 | 2.0 |
| 2019-20 | 1.0 | 1.0 | 100% | – | 1.0 |
| 2020-21 | 1.1 | 1.0 | 90% | – | 1.1 |
| 2021-22 | 1.1 | 1.1 | 100% | – | 1.1 |
| 2022-23 | 1.1 | 1.1 | 9% | 1.0 | 0.1 |
| 2023-24 | 3.2 | 3.2 | 78% | 0.7 | 2.5 |

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru

12 Fel rhan o'i hymateb ehangach i'r pwysau ariannol sylweddol o fewn y GIG yn ystod 2023-24, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ymddiriedolaeth nodi camau gwella ariannol er mwyn helpu i wella sefyllfa gyffredinol GIG Cymru. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i nodi arbedion ychwanegol yn gyflym drwy adenillion cyllid nad yw'n rheolaidd gwerth cyfanswm o £4.2 miliwn o ganlyniad i ohirio buddsoddiadau, incwm uwch na'r disgwyl (fel llog banc), ac effaith lai o bwysau chwyddiant[2]. Wedi hynny, gwellodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau goruchwylio ariannol yng ngoleuni'r arbedion ychwanegol hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cyflawni sefyllfa o fantoli'r gyllideb ar gyfer 2023-24.

[2] At ddibenion adrodd, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn **Arddangosyn 1**.

13 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar waith ar gyfer troi ei ofynion arbedion lefel uchel yn gynlluniau arbedion y gellir eu defnyddio. Er mwyn cyrraedd targed arbedion effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru 2024-25, dyrannodd dargedau arbedion yn seiliedig ar ddull iteraidd a oedd yn cynnwys:

- cyhoeddi canllawiau cynllunio yn gynnar i gyfarwyddiaethau gyda gofynion arbedion disgwyliedig;
- Partneriaid Busnes Ariannol[3] (FBPs) yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau i nodi cyfleoedd arbedion posibl;
- cyfathrebu ffurfiol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid yn nodi targedau arbedion;
- cyhoeddi cyllideb, dyraniadau, a thempledi cynllun arbedion i gyfarwyddiaethau gan y Tîm Cyllid;
- drafftio cynlluniau arbedion RAG[4] y gyfarwyddiaeth;
- cwblhau cynlluniau arbed yn nodi sut y bydd arbedion yn cael eu cyflawni drwy gynlluniau gwyrdd.

14 Darparodd y Tîm Cyllid arolygiaeth a chraffu ar y cynlluniau i sicrhau eu dichonoldeb cyflawni, gan herio eu statws RAG a sicrhau nad oedd cynigion yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei hamcanion strategol. Nododd yr Ymddiriedolaeth darged arbedion rheolaidd o gyfanswm o £2.8 miliwn ar draws ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau corfforaethol, a £0.8 miliwn ychwanegol o gynlluniau arbedion corfforaethol afreolaidd, gan ddod â'i harbedion cyffredinol i £3.6 miliwn. Tynnwyd yr arbedion o'r cyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a nodwyd perfformiad ariannol a disgwyliadau gwerth am arian yn y 'llyfrynnau cyllideb' a roddwyd i bob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

15 Ers sawl blwyddyn, wrth gyflawni targed arbedion effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio arbedion ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i dalu am ei phwysau cost er mwyn galluogi ailddyrannu adnoddau i dri maes allweddol fel rhan o'i dull buddsoddi strategol, sef y Rhaglen Atal Strategol, Galluogi Blaenoriaethau Strategol, ac Effeithlonrwydd a Gwella Busnes. Canfu ein Hasesiad Strwythuredig 2023 fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar waith i flaenoriaethu sut y defnyddir y Gronfa Fuddsoddi, gan sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol.

[3] Mae'r model partner busnes cyllid yn sicrhau ymgysylltiad ar reolaeth ariannol ac yn darparu cyswllt da rhwng gwasanaethau a chyllid corfforaethol. Mae'r partneriaid busnes ariannol yn gyfrifwyr ariannol sy'n gyfrifol am gefnogi gwasanaethau, adroddiadau ariannol a darparu rôl ymgynghorol.

[4] 'Coch', 'Melyn', 'Gwyrdd'.

## Monitro a goruchwylio cyfleoedd i wella costau

16 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro a goruchwylio ei pherfformiad ariannol cyffredinol gydag adroddiadau cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i bob cyfarfod Bwrdd, ac yn destun gwaith craffu a herio da. Oherwydd y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cyfrif am ei harbedion (**gweler paragraff 14**), nid oes gofyniad i gynnwys diweddariadau ar gyflawni arbedion yn ei hadroddiadau cyllid gyda phwyslais ar reoli'r sefyllfa ariannol gyffredinol. Fodd bynnag, mae’r ffurflenni monitro misol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ynghlwm wrth yr adroddiad cyllid i’r Bwrdd er mwyn rhoi’r manylion i gyfarwyddwyr anweithredol pe bai angen. Darperir dadansoddiad manwl hefyd o'r cynlluniau a gefnogir gan y Gronfa Fuddsoddi.

17 Mae’r Ymddiriedolaeth yn monitro ei risgiau ariannol allweddol yn rheolaidd. Mae'r Tîm Cyllid yn goruchwylio'r sefyllfa ariannol fisol yn rheolaidd, ac yn rhagweld cynlluniau gwariant. Mae FBPs yn gweithio gyda thimau rheoli cyfarwyddiaethau ac isadrannau i sicrhau bod unrhyw risgiau a newidiadau i’r modd y caiff y rhagolygon eu cyflawni yn cael eu nodi a’u hadrodd i’r Uwch-dimau Rheoli drwy adroddiadau perfformiad ariannol arferol. Hyd yma, mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau arbedion gweithredol a sefydliadol.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 1** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynllun Strategol 2024-27<br>• Cynllun Ariannol a Fframwaith Rheoli Cyllidebau 2024-27<br>• Adroddiadau Cyllid y Bwrdd<br>• Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru<br>• Diweddariadau/Negeseuon E-bost Cynllunio Ariannol |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gyfweld â’r uwch-swyddogion a’r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gweithrediadau<br>• Uwch-bartner Busnes Cyllid<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyllid Dros Dro<br>• Pennaeth Gwybodaeth Ariannol, Gwerth, ac Effaith<br>• Rheolwr Cyffredinol, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant |
| Arsylwadau | • Gwnaethom arsylwi ar Gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn rhithwir ym mis Mawrth a mis Mai 2024 |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.